

# Pwyllgor Asesu Ansawdd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

## Swyddi Gwag ar gyfer Aelodau

### Crynodeb

Mae CCAUC yn chwilio am ymgeiswyr i fod yn aelodau o Bwyllgor Asesu Ansawdd CCAUC, sydd newydd ei sefydlu. Pwyllgor statudol o Gyngor CCAUC yw hwn, dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, ac felly mae'n cyflawni rôl ymgynghorol.

Rhaid i ymgeiswyr feddu ar brofiad o ddarpariaeth addysg uwch, neu fod wedi dangos gallu yn y maes, gan gynnwys goruchwyllo sicrwydd ansawdd ac ehangu darpariaeth. **Ni ddylech fod yn gyflogedig i unrhyw ddarparwr addysg uwch presennol yng Nghymru, nac yn eistedd ar fwrdd llywodraethol unrhyw un ohonynt.**

Rydym yn awyddus i sicrhau bod amrywiaeth o ddarparwyr addysg uwch yn cael eu cynrychioli ar y pwyllgor, ac felly croesawn hefyd unigolion â phrofiad o addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach neu ddarparwyr eraill.

Disgwylir i'r Pwyllgor gyfarfod ddwywaith y flwyddyn, ond gall cyfarfodydd ychwanegol fod yn angenrheidiol. Rhagwelir y bydd y cyfarfod cyntaf yn ystod hydref 2015.

Ni roddir tâl i aelodau'r Pwyllgor Asesu Ansawdd. Serch hynny, bydd CCAUC yn eich ad-dalu am unrhyw dreuliau rhesymol a ysgwyddir gennych yn rhinwedd eich dyletswyddau, ac a gofnodir yn briodol, yn unol â'n gweithdrefnau teithio a chynhaliaeth.

Bydd y penodiad yn para am dymor cychwynnol o hyd at dair blynedd, oni bai y bydd yn cael ei derfynu gan y naill ochr neu'r llall, ac mae posibilrwydd o ailbenodiad am dymor arall.

Dylai ymgeiswyr wneud cais erbyn **7 Medi 2015**.

## Y Pwyllgor

1. Mae CCAUC yn chwilio am ymgeiswyr i fod yn aelodau o Bwyllgor Asesu Ansawdd CCAUC, sydd newydd ei sefydlu. Pwyllgor statudol o Gyngor CCAUC yw hwn, dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, ac felly mae'n cyflawni rôl ymgynghorol.
2. Dylai ymgeiswyr wneud cais erbyn **7 Medi 2015**.

## Cefndir

3. Sefydlwyd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Ar 1 Gorffennaf 1999, daeth CCAUC yn un o gyrff noddedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a oedd newydd gael ei sefydlu. Yn dilyn hyn, fe'n galwyd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) ac yna, yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2011.
4. Mae CCAUC yn gorff cyfryngol rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector addysg uwch (AU) yng Nghymru, ac rydym yn darparu cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru am y sector. Rydym yn cynorthwyo'r system AU yng Nghymru i wireddu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan sicrhau dysg, addysg ac ymchwil o ansawdd uchel a chan gyfrannu at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru.
5. Ar hyn o bryd, mae gan CCAUC ddyletswydd statudol dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 i sicrhau y gwneir darpariaeth i asesu ansawdd yr addysg a roddir mewn sefydliadau y rhoddwn gymorth ariannol tuag at eu gweithgareddau, neu yr ystyriwn roi cymorth ariannol iddynt.
6. Bydd pwerau newydd CCAUC dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, mewn perthynas ag ansawdd, yn cychwyn ar 1 Medi 2015, ac ar yr adeg honno bydd darpariaethau asesu ansawdd Deddf 1992 yn cael eu diddymu. Mae Deddf 2015 yn ei gwneud hi'n ofynnol inni asesu, neu wneud trefniadau ar gyfer asesu, ansawdd yr addysg a ddarperir yng Nghymru gan, neu ar ran, pob sefydliad a reoleiddir. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn ein galluogi i roi cyngor, cymorth neu gyfarwyddiadau i sefydliadau rhag i ansawdd addysg, neu gwrs, fynd yn annigonol.
7. Mae Deddf 2015 hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol inni sefydlu Pwyllgor Asesu Ansawdd i roi cyngor inni ar arfer ein dyletswyddau o dan yr adran hon. Rydym felly'n ad-drefnu strwythur ein pwyllgorau.
8. Mae CCAUC hefyd, ar hyn o bryd, yn achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) i athrawon ysgol. Mae ein cyfrifoldebau o ran HCA yn cael eu cynnwys yn Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004 a Deddf Addysg 2005.

## Y Person

9. Rhaid i aelodau feddu ar brofiad o ddarpariaeth addysg uwch, neu fod wedi dangos gallu yn y maes.

10. Dylech fod â phrofiad o oruchwylio sicrwydd ansawdd ac ehangu darpariaeth.
11. Rydym yn awyddus i sicrhau bod amrywiaeth o ddarparwyr addysg uwch yn cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor, ac felly croesawn hefyd unigolion â phrofiad o addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach neu ddarparwyr eraill.

### Y rôl

12. Disgwylir i'r Pwyllgor gyfarfod ddwywaith y flwyddyn, ond gall cyfarfodydd ychwanegol fod yn angenrheidiol er mwyn i'r Pwyllgor allu rhoi cynngor priodol ar newidiadau o dan Ddeddf 2015.
13. Bwriedir bod aelodau'n ymbresenoli yn y cyfarfod cyntaf, ond wedi hynny gellid defnyddio cyfarpar cynhadledd fideo.
14. Wrth ymgeisio am y penodiad hwn, rydych yn cadarnhau eich bod yn gallu neilltuo digon o amser i baratoi ar gyfer cyfarfodydd y pwyllgor, a'u mynychu, a gwireddu unrhyw ddisgwyliadau eraill eich rôl, e.e. dod yn llwyr gyfarwydd â Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a datblygiadau cysylltiedig.
15. Rhagwelir y bydd y cyfarfod cyntaf yn ystod hydref 2015.

### Telerau penodi

16. Bydd y penodiad yn para am dymor cychwynnol o hyd at dair blynedd, oni bai y bydd yn cael ei derfynu gan y naill ochr neu'r llall, ac mae posibilrwydd o ailbenodiad am dymor arall.
17. **Ni ddylech fod yn gyflogedig i unrhyw ddarparwr addysg uwch presennol yng Nghymru, nac yn eistedd ar fwrdd llywodraethol unrhyw un ohonynt.** Ni chaiff ymgeiswyr eu penodi fel rheol oni bai bod bwlch o dair blynedd ers iddynt gael eu cyflogi ddiwethaf gan ddarparwr addysg uwch yng Nghymru.
18. Bydd unrhyw aelod o'r Pwyllgor a benodir i gorff llywodraethu, neu i swydd reoli neu academaidd gyda darparwr addysg uwch yng Nghymru yn ystod tymor ei wasanaeth ar y Pwyllgor Asesu Ansawdd, yn gorfod ymddiswyddo o'r pwyllgor.
19. Ni roddir tâl i aelodau'r Pwyllgor Asesu Ansawdd. Serch hynny, bydd CCAUC yn eich ad-dalu am unrhyw dreuliau rhesymol a ysgwyddir gennych yn rhinwedd eich dyletswyddau, ac a gofnodir yn briodol, yn unol â'n gweithdrefnau teithio a chynhaliaeth.
20. Mae'n ofynnol arnoch i ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol i CCAUC yn flynyddol, ac i ddiweddarau eich datganiad pa bryd bynnag y bydd newid sylweddol.
21. Disgwyliwn ichi gyflawni eich rôl gan lynu at y safonau uchaf o ymddygiad. Mae'r saith egwyddor ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus (egwyddorion Nolan) yn disgrifio'r safonau y dylech eu gweithredu.

### **Y broses benodi**

22. Cytunir ar y penodiadau gan bwyllgor penodiadau CCAUC.
23. Cyflwynwch eich cais ar ffurf CV a llythyr eglurhaol, gan ddangos perthnasedd eich cais am y swydd. Mae hyn yn cynnwys manylu ar eich profiad o oruchwylio/rheoli sicrwydd ansawdd ac ehangu darpariaeth.
24. Rhaid ichi gadarnhau, os yw'n berthnasol, bod gennych gefnogaeth eich sefydliad neu fudiad i ymgymryd â'r rôl hon.
25. Dylid cyflwyno ceisiadau'n electronig i Dr Cliona O'Neill ([cliona.oneill@hefcw.ac.uk](mailto:cliona.oneill@hefcw.ac.uk)), i gyrraedd dim hwyrach na 7 Medi 2015.